

Y Merthyr

(ffyddlondeb / dewrder / penderfyniad)

Ddau can mlynedd ar ôl i Iesu Grist gael ei groeshoelio roedd y Rhufeiniaid yn dal i lywodraethu Palestina. Yng Ngheserea, ar lan Môr y Canoldir, roedd y lleng Rufeinig wedi ei lleoli. Ymhlith y swyddogion roedd milwr o'r enw Marinus. Gŵr galluog o deulu cefnog. Er mai gŵr ifanc ydoedd roedd wedi gwneud ei farc yn gynnar iawn yn ei yrfa yn y fyddin.

Daeth si fod swydd bwysig iawn ar fynd – y swydd o gynrol. Dyna lle byddai'r milwyr fin nos yn trafod ymhlith ei gilydd. “Does dim dwywaith pwy sy'n mynd i gael y swydd hon,” meddai un ohonyn nhw gan redeg ei fysedd ar lafn ei gleddyf. “Rwy'ti'n berffaith iawn,” meddai un arall, “ond pwy sydd gen ti mewn golwg?” gofynnodd. “Marinus, wrth gwrs. Mae'n filwr cydnerth sy'n barod i wynebu unrhyw berygl.” “Ond mae un peth pwysig arall amdano,” meddai'r trydydd milwr. “Mae ganddo barch mawr tuag at ei gyd-filwyr. Mi rydan ni i gyd yn bwysig iddo. Beth bynnag, mi gawn wybod rywbryd yfory pwy fydd cynrol ein lleng ni.” A thawodd y milwyr i gyd. Roedd hi'n hwyrhau erbyn hyn.

Am bedwar o'r gloch y diwrnod canlynol cyhoeddwyd mai Marinus fyddai'r cynrol newydd. Roedd y swyddogion eraill a'r milwyr i gyd yn falch. Pawb ond un! Roedd un o'r swyddogion yn flin ac yn chwerw iawn. Credai mai ef oedd y swyddog gorau ar gyfer y swydd. Yn ddiarwybod i weddill y swyddogion aeth yn syth i weld un o brif ynadon y ddinas i gwyno.

“Beth ydi'ch cwyn chi felly?” gofynnodd Achaeus y prif ynad.

“Syr,” meddai'r swyddog, “fe hoffwn i ddweud wrthy'ch fod Marinus yn Gristion. Mae'n un o'r bobl sy'n dilyn Iesu Grist. Fedr'wch chi ddim cael Cristion sy'n gynrol yn y lleng Rufeinig.”

Galwodd Achaeus, y prif ynad, ar ei weision i gyrchu Marinus yn ôl ato.

“Rwy'n cael ar ddeall dy fod yn Gristion, yn dilyn Iesu. Ydi hynny'n wir?” gofynnodd y prif ynad.

“Ydi, syr, mae hynny'n hollol wir. Mae fy nheulu a minnau yn ddilynwyr ffyddlon i Iesu Grist. Rydw i'n cydnabod bod Iesu yn Arglwydd ar fy mywyd i,” meddai Marinus yn ddi-ofn a phendant.

Doedd Achaeus ddim yn gwybod lle i droi.

“Wyt ti’n deall, Marinus, fod gan yr ymerodraeth Rufeinig hawl i’th ladd. Wyt ti’n deall hynny? Gwranda, byddai dyn o’th galibr di yn gallu cael unrhyw swydd yn y fyddin Rufeinig. Mae gen ti ddewis i’w wneud. A dyma’r dewis. Aros yn y fyddin Rufeinig a chyrraedd y top neu ddal dy afael yn y lol yma. A lol ydi credu yn y gred Gristnogol yma. Dyna’r dewis i ti. A dim ond y ti fedr ddod i benderfyniad.”

Beth fyddai Marinus yn ei wneud tybed? Gofynnodd i Achaeus am ganiatâd i fynd allan am ychydig oriau.

“Rhoddaf dair awr i ti ddod i benderfyniad,” meddai’r ynad.

Aeth Marinus yn syth i weld Esgob Cesarea. Aeth hwnnw ag ef i’r eglwys. Aeth y ddau yn syth at yr allor. “Mae’n rhaid i ti ddewis rhwng hwn,” meddai gan bwyntio at y Beibl ar yr allor, “neu hwn,” meddai gan bwyntio at y cleddyf oedd yn hongian wrth ystlys Marinus. Heb yngan gair, pwyntiodd Marinus at y Beibl oedd ar yr allor. Ymhen tair awr dychwelodd Marinus ac aeth yn syth i weld yr ynad. Meddai, “Byddaf yn ffyddlon i Iesu Grist tra byddaf byw.”

Doedd gan Achaeus ddim dewis. Anfonwyd ef allan i’w ddiennyddio.



Adnod: “Gwylwch a sefwch yn y ffydd.”
Corinthiaid. 16:13.



Gweddi:

“A fynno ddewrder gwir,
o deued yma;
mae un a ddeil ei dir
ar law a hindda.
ni all temtasiwn gref
ei ddigalonni ef
i ado llwybrau’r nef;
y gwir bererin.” Amen.



Trafod:

- Pa eiriau fydddech chi yn eu defnyddio i ddisgrifio Marinus?
- Beth yn union ydi ystyr y gair “merthyr”?